Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Bodloni anghenion dysgu plant a phobl ifanc sy'n troseddu

Mehefin 2008

Iechyd ar Waith
Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


**Cyflwyniad** 1

**Cefndir** 2

**Prif ganfyddiadau** 4

**Argymhellion** 6

**Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cefnogi Timau Troseddau Ieuenctid?** 7

Darparu arweinyddiaeth a rheolaeth 7
Cyfrannu adnoddau 8
Sicrhau bod TTIau yn bodloni targedau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth 9

**Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cynllunio ac yn datblygu darpariaeth?** 10

Cynllunio darpariaeth 10
Darparu addysg ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu ac sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol 11
Datblygu ystod amrywiol o ddarpariaeth trwy waith partneriaeth 12
Rheoli trefniadau trosglwyddo ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n gadael gwarchodaeth 14

**Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn monitro canlyniadau dysgu?** 16

**Atodiad 1**

Anghenion dysgu plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid

**Atodiad 2**

Ymestyn hawliau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu
Lleisio barn
Cymryd rhan/cael eich cynnwys
Iechyd a lles
Mynediad at wybodaeth ac arweiniad

**Atodiad 3**

Enghreifftiau o arfer dda

**Geirfa/cyfeiriadau**

## Cyflwyniad

1 Mae'r materion sy'n ymwneud â pholisi, cynllunio a chyflwyno addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu yn gymhleth ac yn cynnwys llawer o asiantaethau gwahanol. Mae hyn yn golygu nad yw hi bob amser yn glir i'r asiantaethau hyn sy'n gyfrifol am godi'r safonau addysg a'r canlyniadau ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr. Gofynnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ei chylch gwaith 2007-2008 i Estyn, am gyngor ar sut mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu rôl statudol o ran addysg a hyfforddiant plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid.

2 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu rôl awdurdodau lleol i fodloni anghenion addysg a hyfforddiant plant a phobl ifanc sy'n troseddu a pha mor dda y mae awdurdodau yn cyflawni'r cyfrifoldebau statudol hyn.

3 Mae'r Cynulliad wedi comisiynu dau adroddiad cylch gwaith blaenorol yn y maes hwn. Adroddodd y rhain ar ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu[1]. Canfu pob adroddiad fod llawer o rwystrau pwysig sy'n atal plant a phobl ifanc rhag cyflawni eu potensial llawn.

4 Seiliwyd yr adroddiad hwn ar y canlyniadau o arolygiadau a chanfyddiadau ymchwil ac arolygon cyhoeddedig. Mae hefyd yn defnyddio'r ymatebion o holiaduron a anfonodd Estyn i'r holl Dimau Troseddau Ieuenctid (TTIau) a'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Cymeron ni dystiolaeth hefyd o Gynlluniau Addysg Sengl yr awdurdodau lleol a Chynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid TTIau.

5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn bodloni anghenion plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid trwy:

- gefnogi Timau Troseddau Ieuenctid;
- cynllunio a datblygu darpariaeth briodol; a
- monitro canlyniadau dysgu.

6 Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos yn Atodiad 3 sy'n dangos arfer dda wrth ddarparu addysg a hyfforddiant ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu.

7 Mae'r adroddiad yn cynnwys geirfa hefyd.

[1] Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer pobl ifanc o Gymru yn y system cyfiawnder ieuenctid, Estyn 2005

## Cefndir

8 Roedd Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weithredwr ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr sefydlu TTI amlddisgyblaethol erbyn Ebrill 2000, i gydlynu gwasanaethau er mwyn lleihau ac atal troseddu ymhlith pobl ifanc ar lefel leol.

9 Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am oruchwylio plant a phobl ifanc sy'n troseddu ac yn gweithio gyda'r rheiny sydd mewn perygl o droseddu. Mae Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol yn rhoi cynlluniau cyfiawnder ieuenctid blynyddol ar waith sy'n disgrifio natur a graddfa'r troseddu gan blant a phobl ifanc yn eu hardal a'r rhaglenni i fynd i'r afael â hyn. Maent yn gyfrifol am TTIau ac yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth i'r TTIau er mwyn eu helpu i fodloni targedau Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

10 Mae Cyfarwyddwyr Addysg yn gyfrifol am addysg pob un o'r plant a'r bobl ifanc sy'n byw yn ardal eu hawdurdod lleol. Fel rhan o'r atebolrwydd hwn, maent yn gyfrifol am gynllunio a chyflwyno addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. Yr awdurdod lleol, yn hytrach nag ysgolion, sy'n gyfrifol am drefnu bod darpariaeth addysg ar gael i fodloni anghenion y plant a'r bobl ifanc hyn, gyda chyn lleied o oedi â phosibl.

11 Cyrff amlasiantaethol yw TTIau a rhaid iddynt gael eu hariannu neu eu staffio gan y partneriaid statudol canlynol:

- gwasanaeth yr heddlu;
- y gwasanaeth prawf;
- gwasanaethau cymdeithasol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol; a'r
- gwasanaeth iechyd.

12 Mae TTIau yn cydlynu'r gwaith sy'n ymwneud ag atal troseddau ymhlith pobl ifanc ar lefel leol ac yn cefnogi plant a phobl ifanc sy'n troseddu. Caiff pob tîm ei reoli gan reolwr TTI sy'n cydlynu gwaith y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Mae rheolwyr TTI yn atebol mewn strwythurau awdurdodau lleol, a chânt eu goruchwylio gan fyrddau rheoli strategol, amlasiantaethol.

13 Mae TTIau yn gweithio i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu trwy ystod o raglenni wedi'u targedu. Maent yn cynnal asesiad safonol o'r holl blant a phobl ifanc sy'n dod i'r system cyfiawnder ieuenctid ac yn datblygu cynlluniau goruchwylio unigol i fynd i'r afael ag anghenion penodol. Yn achos plant a phobl ifanc o oedran ysgol statudol sy'n troseddu, rôl y TTIau yw nodi'r rheiny:

- nad yw eu hanghenion addysg a hyfforddiant yn cael eu bodloni gan ddarpariaeth ysgol gyfredol;

- nad oes ganddynt unrhyw ddarpariaeth o gwbl; neu

- sydd â darpariaeth ond nad yw'n briodol.

14 Mae llawer o waith y TTIau yn statudol. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddo gael ei lywio gan y strategaethau a'r polisïau perthnasol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n troseddu.

15 Dyma'r prif strategaethau a pholisïau sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant plant a phobl ifanc sy'n troseddu:

- Y Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan (STICG) y cytunwyd arni ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ym mis Gorffennaf 2004. Mae'r strategaeth hon yn disgwyl bod y rheiny sy'n cael eu goruchwylio gan TTIau yn cael eu trin fel plant a phobl ifanc yn gyntaf a throseddwyr yn ail. Mae'r strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol i blant a phobl ifanc sy'n troseddu gael Cynllun Dysgu Unigol (CDU) yn amlinellu eu gofynion Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (AHCh);

- Y Wlad sy'n Dysgu (2001) a 'Llwybrau Dysgu 14-19' (2002). Mae'r polisïau a'r strategaethau hyn yn cydnabod pob pobl ifanc yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd ac y gall pob un ohonynt gyfrannu at y gymdeithas os yw eu dysgu wedi bod yn llwyddiannus. Mae ffocws ar ddatblygu llwybrau dysgu unigol i fodloni anghenion pob dysgwr a darparu dewis ehangach a hyblygrwydd rhaglenni a ffyrdd o ddysgu; ac

- Ymestyn Hawliau (2001), sef polisi arweiniol y Cynulliad ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid yng Nghymru. Sylfaen y polisi yw 10 'hawl', y mae'r Cynulliad a phartneriaid wedi'u hystyried yn hanfodol i bobl ifanc rhwng 11-25 oed eu cael, er mwyn iddynt gyflawni eu potensial llawn.

16 Mae cylchlythyr arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006), *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion* yn amlinellu fframwaith i bob ysgol ac Awdurdod Lleol ei ddefnyddio i ddatblygu dull cynhwysol a chefnogol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cylchlythyr hwn yn nodi plant a phobl ifanc sy'n troseddu fel un o'r prif grwpiau y mae angen sylw arbennig arnynt.

17 Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn arolygu TTIau yng Nghymru. Maent yn gwahodd Estyn i arolygu'r addysg a'r hyfforddiant a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan y TTI. Mae'r adroddiadau ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf EM.

## Prif ganfyddiadau

18 At ei gilydd, nid yw awdurdodau lleol yn gwneud digon i sicrhau bod TTIau yng Nghymru yn sicrhau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (AHCh) amser llawn ar gyfer plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. Nid ydynt bob amser yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth ddigonol i TTIau nac yn cyfrannu at fwrdd rheoli'r TTI ar lefel ddigon uchel.

19 Mae gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyfrannu llai o arian at TTIau, fel cyfran o gyllid cyffredinol, na phartneriaid yn Lloegr. Yn 2006/07, aeth eu cyfraniad at gyfanswm y cyllid TTI Cymru gyfan i lawr o 3.1% i 2.9% o gyfanswm y gyllideb TTIau. Mae hyn yn golygu bod ystod y gwasanaethau a'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu, ac sy'n aml ag anghenion addysgol cymhleth a pharhaus, yn gyfyngedig.

20 Nid oes gan lawer o fyrddau TTI gynlluniau i wella perfformiad AHCh. Nid yw unrhyw un o'r TTIau yng Nghymru yn bodloni targed AHCh y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar hyn o bryd. Mae llawer o reolwyr ac ymarferwyr TTI yn ei chael yn anodd gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael yr ymyriadau AHCh sydd eu hangen arnynt.

21 Mae'r trefniadau cynllunio a chyflwyno ar gyfer addysg a hyfforddiant plant a phobl ifanc sy'n troseddu yn amrywio'n eang ar draws awdurdodau. Nid oes gan y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc sy'n troseddu Gynllun Dysgu Unigol (CDU) yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan y Cynulliad a'r BCI[2]. Ar lefel ALl, mae diffyg eglurder ynglŷn â phwy ddylai arwain y gwaith amlasiantaethol i lunio'r CDU ac ar ba ffurf dylai hwn fod. Mae'r rhan fwyaf o TTIau yn ei chael yn anodd dod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt am arddull dysgu plentyn neu berson ifanc.

22 Rhaid i bob gwasanaeth addysg awdurdod lleol ddarparu addysg ar gyfer eu disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r awdurdodau yn sicrhau eu bod yn cynnig y 25 awr yr wythnos a argymhellir i'r dysgwyr hyn. Ar y cyfan, mae ysgolion yn amharod i gynnig lleoedd i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gwahardd, wedi troseddu a/neu sydd wedi bod dan warchodaeth.

23 At ei gilydd, nid oes digon o leoedd addysg a hyfforddiant i fodloni anghenion unigol y rheiny sy'n troseddu. Er bod llawer o TTIau yn gallu defnyddio pecynnau addysg unigol o ystod dda o leoliadau eraill, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, rhaglenni gwasanaeth ieuenctid a phrosiectau gwirfoddol, mae gormod o fylchau mewn darpariaeth o hyd. Mae dod o hyd i ddarpariaeth addas a chael mynediad iddi yn parhau i beri anhawster mawr i lawer o blant a phobl ifanc sy'n troseddu.

24 Mae prinder lleoedd priodol ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith i bobl ifanc sy'n troseddu. Nid oes digon o ddarpariaeth medrau sylfaenol i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn. Nid yw awdurdodau lleol yn comisiynu digon o brosiectau sy'n addas ar gyfer merched a menywod ifanc sy'n troseddu. Nid oes digon o ddarpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog ar gael.

[2] Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan (2004) LlCC, BCI

25 Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli'r broses o drosglwyddo plant a phobl ifanc o fod dan warchodaeth i'r gymuned dim ond yn ddigonol neu'n wael mewn tua hanner yr achosion. Nid oes digon o gynrychiolaeth gan swyddogion awdurdodau lleol mewn cyfarfodydd yn yr ystâd ddiogel i adolygu'r cynnydd AHCh a wna pobl ifanc dan warchodaeth a chytuno ar y trefniadau ar gyfer parhau â'u dysgu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

26 Mae mwyafrif y plant a'r bobl ifanc sy'n gadael carchariad gwarchodol yn mynychu darpariaeth cwricwlwm amgen yn hytrach na mynd i'r ysgol. Mae hyn yn golygu nad ydynt bob amser yn cael y cyfle i gael achrediad priodol.

27 Fodd bynnag, mae llawer o awdurdodau lleol yn anelu at ddarparu rhywfaint o achrediad priodol. Fel hyn, gall plant fynd ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a/neu gyflogaeth. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio ystod o asiantaethau a phartneriaethau i gynllunio a chyflwyno eu darpariaeth amgen a cheir llawer o enghreifftiau llwyddiannus. Fodd bynnag, ychydig iawn o fonitro ansawdd neu ganlyniadau'r ddarpariaeth a geir.

28 Nid yw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol yn casglu data ar gyrhaeddiad na chyflawniadau unigolion na grwpiau o blant a phobl ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan TTIau yn y gymuned. Nid yw canlyniadau yn cael eu mesur yn feintiol, ni osodir targedau, ac nid yw tueddiadau yn cael eu monitro i godi safonau.

## Argymhellion

29 Er mwyn gwneud rhagor o gynnydd ar lefel genedlaethol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 sicrhau bod digon o leoedd priodol ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith i fodloni anghenion pob un o'r bobl ifanc;

A2 casglu data cenedlaethol ar gyrhaeddiad a chyflawniadau plant a phobl ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan TTIau yn y gymuned; a

A3 monitro'r defnydd o gynlluniau dysgu unigol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sy'n troseddu, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol yn y Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan.

30 Er mwyn bodloni anghenion addysg a hyfforddiant plant a phobl ifanc sy'n troseddu yn well, dylai awdurdodau lleol:

A4 gymryd rhan mewn byrddau rheoli TTI ar lefel ddigon uchel, gan sicrhau bod cynrychiolaeth ar lefel ddigon uchel o wasanaethau addysg;

A5 adolygu lefel cyfraniad y cyllid i TTIau;

A6 llunio a monitro cynlluniau gwella perfformiad Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth TTI;

A7 monitro canlyniadau dysgu'r plant a'r bobl ifanc sy'n hysbys i'r TTI;

A8 cynyddu ystod yr asiantaethau a ddefnyddir i ddarparu rhaglenni amgen, strwythuredig, gan gynnwys mwy o ddarpariaeth medrau sylfaenol;

A9 cael eu cynrychioli mewn cyfarfodydd adolygu a chynllunio dysgu yn yr ystâd ddiogel; ac

A10 ymateb i anghenion a dymuniadau plant a phobl ifanc sy'n gadael canolfan gadw, gan gynnwys y math o ddarpariaeth y maent yn ei mynychu.

## Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cefnogi Timau Troseddau Ieuenctid?

31 Mae cymorth awdurdodau lleol ar gyfer timau troseddau ieuenctid yn amrywio'n eang ledled Cymru. Mae prif weithredwyr awdurdodau lleol yn gyfrifol am y tîm troseddau ieuenctid yn eu hardal. Eu rôl yw darparu arweinyddiaeth a rheolaeth, cyfrannu at adnoddau a gweithio gyda thimau troseddau ieuenctid i gyflawni targedau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

### Darparu arweinyddiaeth a rheolaeth

32 Nid yw awdurdodau lleol (ALlau) yng Nghymru bob amser yn cyfrannu at fwrdd rheoli'r TTI ar lefel ddigon uchel. Er eu bod yn bartneriaid statudol ar y bwrdd, mae statws a phresenoldeb y swyddogion awdurdod lleol sy'n ymwneud â'r bwrdd yn amrywio gormod. Nid yw rhywun sydd â statws digon uchel yn mynychu bob amser. Mae hyn yn golygu nad oes rhywun yn bresennol bob amser sy'n gallu gwneud penderfyniadau am adnoddau na gwneud argymhellion i'r pwyllgorau priodol. Mae gan y TTIau mwyaf llwyddiannus fwrdd rheoli sydd â phroffil uchel yn yr awdurdod lleol, ac maent yn integreiddio'n effeithiol â strwythurau strategol lleol.

33 Nid yw aelodau awdurdodau lleol ar fwrdd rheoli'r TTI bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'u dylanwad ar lefel strategol i sicrhau gwasanaethau o ansawdd gwell ar gyfer plant a phobl ifanc o'u hasiantaethau prif ffrwd eu hunain. Mae hyn yn golygu nad yw gwasanaethau AHCh yn cael eu cyflwyno na'u datblygu yn effeithiol bob tro.

34 Nid yw byrddau rheoli yn gofyn am adroddiadau ar gyflawniad a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc sy'n hysbys i'r TTI. Mae hyn yn golygu nad yw anghenion y bobl ifanc hyn yn cael eu trafod ar lefel strategol i lywio prosesau cynllunio a chomisiynu lleol.

35 Nid oes gan lawer o fyrddau TTIau gynlluniau i wella perfformiad AHCh. Nid oes digon o gynlluniau TTI yn gwneud cyfrifoldeb yr awdurdod lleol i weithio gyda'r TTI i gyflawni targed perfformiad AHCh y BCI[3] yn glir. Yn ychwanegol, ni chaiff protocolau a chytundebau lefel gwasanaeth rhwng ALlau a TTIau eu cwblhau'n ddigon cyflym na'u hadolygu yn ddigon rheolaidd. Mae hyn yn cyfyngu effeithiolrwydd cydweithio. Mewn rhai awdurdodau lleol, fodd bynnag, mae TTIau wedi sicrhau mynediad i system rheoli addysg yr awdurdodau er mwyn eu helpu i fonitro'r canlyniadau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc y maent yn eu goruchwylio.

---

[3] Dyma'r targed a osodir gan y BCI ar gyfer TTIau i sicrhau bod 90 y cant o'r plant a'r bobl ifanc sy'n dod trwy'r system cyfiawnder ieuenctid mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth amser llawn erbyn diwedd eu dedfryd. Ystyr 'amser llawn' yw 25 awr o AHCh yr wythnos.
*Yn 2006/07, newidiodd y rheolau cyfrif ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i wahaniaethu rhwng pobl ifanc sy'n cael 25 awr a mwy ac 16-24 awr o addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Cyn Ebrill 2006, fe wnaeth TTIau dim ond dychwelyd nifer y bobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth amser llawn, felly gallai'r rheolau cyfrif newydd fod wedi cyfrannu at y dirywiad mewn perfformiad yn 2006/07.

36 Nid oes gan rai TTIau unrhyw gynrychiolwyr addysg neu hyfforddiant ar eu bwrdd. Mae hyn yn golygu nad oes digon o drafodaethau am ddysgu yn y gwaith a chyfleoedd ar gyfer cyngor ar yrfaoedd.

37 Mae'r rhan fwyaf o Gynlluniau Addysg Sengl (CASau) awdurdodau lleol ar gyfer 2006-2008 yn cysylltu'n effeithiol, mewn termau gweithredol, â Chynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid y TTI ar gyfer eu hardal. Mae pob un o'r awdurdodau lleol ac eithrio ambell un yn briodol yn nodi bod y TTI yn bartner pwysig. Mae un awdurdod, er enghraifft, wedi dod â gwasanaethau cynhwysiad yn briodol o dan un strwythur rheoli ac mae rheolwr y TTI yn aelod o'r bwrdd datblygu strategol.

38 Mae mwyafrif y CASau hefyd yn nodi plant a phobl ifanc mewn system cyfiawnder ieuenctid yn ddefnyddiol fel grŵp sydd angen camau penodol er mwyn eu helpu i wneud y gorau o'u haddysg.

39 Mae rhai Cynlluniau Addysg Sengl yn gwneud cysylltiadau da iawn ag adran AHCh Cynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid TTI trwy ddweud yr hyn y byddant yn ei wneud i helpu bodloni targed AHCh y BCI.

40 Mae llawer o ALlau yn cynnwys cynrychiolwyr TTI ar ddarpariaeth amgen neu banelau cymorth ymddygiad. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o bennu darpariaeth i fodloni anghenion y plant a'r bobl ifanc y maent yn eu goruchwylio yn well.

41 Mae bron pob Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid ALl yn cyfeirio at gysylltiadau cryf ag agenda cynhwysiad yr awdurdod lleol a'r partneriaethau ehangach, fel rhwydweithiau dysgu 14-19 a'r Partneriaethau Pobl Ifanc. Mewn llawer o ALlau, mae staff TTI yn aelodau o'r grwpiau pwysig hyn a gallant ddylanwadu ar y modd y caiff adnoddau eu dyrannu i blant a phobl ifanc sy'n troseddu.

## Cyfrannu adnoddau

42 Mae partneriaid awdurdod addysg lleol yng Nghymru yn cyfrannu llai o arian at TTIau, fel cyfran o'r cyllid cyffredinol, na phartneriaid yn Lloegr. Yn 2005/06, daeth 3.1% o gyllid TTI yng Nghymru o bartneriaid addysg. Y cyfanswm ar gyfer Cymru a Lloegr oedd 5.1%. Fe wnaeth ardal Swydd Efrog yn Lloegr, er enghraifft, gyfrannu 5.9%, sef y cyllid addysg uchaf y tu allan i Lundain.

43 Yn 2006/07, gostyngodd y cyfraniad at yr holl gyllid TTI gan bartneriaid addysg yng Nghymru o 3.1% yn 2005/06 i 2.9%. O ganlyniad, mae ystod y gwasanaethau a'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael i blant a phobl ifanc sy'n troseddu, ac sy'n aml ag anghenion addysgol cymhleth a pharhaus, yn gyfyngedig.

44 Mewn rhai ALlau, fodd bynnag, mae TTIau mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, yn llwyddo i ddenu cryn dipyn o gyllid newydd o ffynonellau eraill, gan gynnwys arian Loteri, y rhwydweithiau dysgu 14-19 a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Fodd bynnag, nid yw Byrddau Rheoli TTI yn mynd i'r afael â chynaliadwyedd prosiectau a ariennir yn y tymor byr bob amser. Er enghraifft, nid oedd unrhyw gyllid i gefnogi parhad prosiect gwarchodaeth llwyddiannus Llywodraeth y Cynulliad (Atodiad 3).

## Sicrhau bod TTIau yn bodloni targedau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth

45 Nid yw TTIau yng Nghymru yn bodloni targed perfformiad Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (AHCh) y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae data gan y BCI yn dangos bod 59.5% o’r plant a’r bobl ifanc sy’n cael eu goruchwylio gan TTIau yng Nghymru mewn AHCh amser llawn rhwng Ebrill 2006 a Mawrth 2007. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o 68.7% ar gyfer Cymru a Lloegr.

46 Mae llawer o reolwyr ac ymarferwyr TTI yn ei chael yn anodd gwneud yn siŵr bod plant a phobl ifanc yn cael yr ymyriadau AHCh sydd eu hangen arnynt. Fodd bynnag, ychydig o reolaeth sydd ganddynt dros y gwasanaethau addysg lleol a ddarperir. Rôl gweithwyr TTI yw datblygu cynlluniau goruchwylio unigol ar gyfer y plant a’r bobl ifanc a thrafod mynediad i ddarpariaeth AHCh ar eu rhan.

47 Mae bron pob awdurdod lleol yng Nghymru yn secondio gweithwyr addysg i TTIau. Maent yn gwneud hyn i geisio gwella mynediad i ddarpariaeth AHCh ar gyfer y plant a’r bobl ifanc y mae’r TTIau yn gweithio gyda nhw. Fodd bynnag, mae gormod o awdurdodau lleol yn defnyddio gweithwyr addysg TTI i ymgymryd â thasgau amhriodol. Mewn rhai achosion, mae’r gweithwyr hyn yn darparu addysg a hyfforddiant yn uniongyrchol. Nid yw rhai gweithwyr addysg TTI yn ymgymryd â’r tasgau priodol, sef asesu addysgol, cyswllt gwarchodaeth ysgolion neu bresenoldeb mewn panelau cynhwysiad.

48 Er bod TTIau yn gwerthfawrogi rôl gymorth y gweithwyr addysg hyn, mae dylanwad mwy strategol y swydd yn gyfyngedig. Mae un TTI yn nodi bod diffyg goruchwylio rheolaidd yr ALl a rheoli llinell y gweithiwr addysg, yn broblem benodol. Weithiau, nid yw gweithwyr proffesiynol eraill yn gweld gweithiwr addysg y TTI yn rhan o’r system addysg. Fodd bynnag, mae rhai ALlau yn cynyddu dylanwad gweithwyr addysg y TTI trwy eu gwahodd i fod yn rhan o fforymau amlasiantaethol.

49 Mae ALlau yn helpu’r TTIau mwyaf llwyddiannus i wella mynediad i AHCh ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n troseddu trwy wneud yn siwr bod cyfathrebu da rhwng yr asiantaethau ALl sy’n gysylltiedig. Yn yr achosion hyn, mae gan yr ALlau gorau a’r TTI brotocolau ffurfiol ar gyfer cydweithio ac mae TTIau yn cysylltu’n dda ag unedau cyfeirio disgyblion ac ysgolion.

## Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn cynllunio ac yn datblygu darpariaeth?

50 Mae'r trefniadau cynllunio a chyflwyno ar gyfer addysg a hyfforddiant plant a phobl ifanc sy'n troseddu yn amrywio'n eang ar draws awdurdodau. Mae Cyfarwyddwyr Addysg ym mhob awdurdod lleol yn gyfrifol am ddarpariaeth addysg a hyfforddiant pob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yn eu hardal. Eu rôl mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n troseddu yw gwneud yn siwr bod darpariaeth briodol ar gael i fodloni eu hanghenion dysgu (sy'n aml yn gymhleth) (gweler Atodiad 1). Nid yw awdurdodau lleol yn gyfrifol am gyflwyno addysg mewn gwarchodaeth, er y dylent sicrhau bod y dysgu yn trosglwyddo'n ddidrafferth rhwng gwarchodaeth a'r gymuned.

### Cynllunio darpariaeth

51 Mae gan bron pob awdurdod lleol swyddog dynodedig sy'n gyfrifol am fodloni anghenion plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag, mewn rhai awdurdodau, nid yw hi bob amser yn glir i bob asiantaeth p'un ai'r TTI neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddod o hyd i leoliadau amgen ar gyfer plant oedran ysgol.

52 Nid oes gan y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc sy'n troseddu Gynllun Dysgu Unigol (CDU) yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan y Cynulliad a'r BCI[4]. Ar lefel ALI, nid yw asiantaethau bob amser yn glir ynglŷn â phwy ddylai arwain y gwaith amlasiantaethol i lunio'r CDU ac ar ba ffurf y dylai hwn fod. Mae llunio'r cynlluniau gan yr awdurdod lleol yn aml yn dibynnu gormod ar y math o ddarpariaeth a gaiff y plentyn neu'r person ifanc. Mewn un awdurdod lleol, fodd bynnag, mae swyddog cynhwysiad enwebedig yn arwain wrth lunio ac adolygu CDUau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu. Mae hyn yn golygu bod yr addysg a gaiff y plant a'r bobl ifanc hyn yn cael ei monitro yn fwy effeithiol.

53 Mae tua hanner yr awdurdodau lleol yn adolygu'r cynnydd a wna plant a phobl ifanc sy'n troseddu. Nid yw'r adolygiadau hyn, fodd bynnag, bob amser yn gyson nac yn cael eu cynnal yn ddigon rheolaidd. O ganlyniad, nid yw'r plant a'r bobl ifanc hyn bob amser yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent.

54 Mae'r rhan fwyaf o TTIau yn ei chael yn anodd dod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt am arddull dysgu plentyn neu berson ifanc. Yn benodol, cânt anhawster wrth geisio cael gwybodaeth gan unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) am ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA). Mewn rhai TTIau, fodd bynnag, mae cysylltiadau da ag ysgolion. Mewn un awdurdod lleol, er enghraifft, mae chwe swyddog cymorth disgyblion yn gweithio mewn ysgolion uwchradd. Maent yn gweithio'n agos â'r Gweithiwr Addysg yn y TTI ac yn mynychu cyfarfodydd TTI. Mae hyn yn golygu eu bod yn rhannu gwybodaeth ac yn adolygu cynnydd y disgyblion hyn yn rheolaidd. Mae bron pob ysgol yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am addysg i TTIau i gefnogi'r broses o ysgrifennu adroddiadau llys.

[4] Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan (2004) LlCC, BCI

55 At ei gilydd, mae'r cynllunio ar y cyd rhwng TTIau a darparwyr addysg eraill yn well na'r cynllunio rhwng TTIau ac ysgolion.

## Darparu addysg ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu ac sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol

56 Mae pob gwasanaeth awdurdod addysg lleol yn darparu cyfleoedd addysg, hyfforddi a dysgu ar gyfer eu disgyblion sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol. Gwnânt hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- mewn unedau cyfeirio disgyblion cofrestredig;
- mewn unedau nad ydynt wedi'u cofrestru;
- trwy leoliadau mewn colegau addysg bellach;
- trwy addysgu plant a phobl ifanc yn eu cartrefi eu hunain ('gwersi gartref'); ac
- yng nghyfnod allweddol 4, trwy ddefnyddio darparwyr dysgu yn y gwaith neu asiantaethau gwirfoddol i ddarparu addysg alwedigaethol.

57 Canfu adroddiad diweddar gan Estyn[5] fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gallu darparu addysg ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahardd ar ôl 15 diwrnod. Fodd bynnag, caiff y rhan fwyaf o awdurdodau anhawster yn sicrhau eu bod yn cynnig y 25 awr a argymhellir i'r dysgwyr hyn. Mae rhesymau amrywiol am hyn, gan gynnwys:

- amser a chyllid cyfyngedig i baratoi a chynllunio addysg y plentyn neu'r person ifanc;
- nifer y darparwyr sydd ar gael yn gyfyngedig;
- problemau yn cael mynediad i gartref y plentyn neu'r person ifanc;
- capasiti cyfyngedig mewn darpariaeth Addysg Ar Wahân i yn yr Ysgol (EOTAS);
- problemau yn trefnu cludiant ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc; ac
- amharodrwydd rhai plant a phobl ifanc, ac ar adegau eu rhieni, i fanteisio ar y ddarpariaeth a gynigir.

58 Ar y cyfan, mae ysgolion yn amharod i gynnig lleoedd i blant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gwahardd, wedi troseddu neu sydd wedi bod yn y ddalfa. Nid yw llawer o ysgolion yn gwahardd y disgyblion hyn yn ffurfiol, ond maent yn aros i'r plentyn neu'r person ifanc ddychwelyd cyn cynllunio unrhyw ddarpariaeth. Mae hyn yn golygu nad yw'r plentyn yn yr ysgol nac yn cael mynediad i ddarpariaeth amgen.

59 Mae llawer o awdurdodau lleol yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer plant sydd wedi'u gwahardd, er nad yw efallai yn cyrraedd targed y BCI o 25 awr yr wythnos, yn

[5] Arfarniad o'r modd y mae ysgolion ac AALlau yn gweithredu'r arweiniad ar waharddiadau (2007), Estyn

arwain at achredu priodol, er mwyn i'r plant hyn allu mynd ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant a/neu gyflogaeth. Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan y TTI nad oes ganddynt leoedd ysgol amser llawn yn cael pecynnau addysg amgen sy'n ystyried eu presenoldeb blaenorol yn yr ysgol, a'u cofnodion disgyblu. Mae'r pecynnau hyn yn herio'r plant a'r bobl ifanc hyn i wella eu hunan-barch.

**Datblygu ystod amrywiol o ddarpariaeth trwy waith partneriaeth**

60 At ei gilydd, nid oes digon o leoedd addysg a hyfforddiant priodol i fodloni anghenion unigol plant a phobl ifanc sy'n troseddu.

61 Mae llawer o blant a phobl ifanc sy'n troseddu wedi cael profiadau gwael o addysg ac nid ydynt yn gwybod sut i ddysgu. Maent wedi ymddieithrio o'r ysgol ac yn gweld y cwricwlwm a'r ffordd y mae'r ysgol yn ei gyflwyno yn amhriodol[6]. Mae canfyddiadau ymchwil eraill[7] yn cefnogi hyn ac yn dangos bod angen i ddarparwyr roi rhaglenni mwy strwythuredig ar waith sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc sydd wedi tangyflawni wneud rhywbeth gwerth chweil.

62 Caiff llawer o TTIau fynediad i becynnau addysg unigol o ystod dda o leoliadau amgen, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, rhaglenni gwasanaeth ieuenctid a phrosiectau gwirfoddol. Mae'r math hwn o ddarpariaeth yn aml yn fwy priodol na darpariaeth draddodiadol ar gyfer anghenion y plant a'r bobl ifanc y maent yn eu goruchwylio. Fodd bynnag, gall plant a phobl ifanc sy'n troseddu ymddieithrio ymhellach trwy fynychu darpariaeth 'ar wahân'. Yn ychwanegol, nid yw darparwyr prif ffrwd yn gweithredu i ddatblygu rhaglenni mwy priodol ar gyfer y dysgwyr hyn.

63 Mae rhai Rhwydweithiau Dysgu 14-19 yn gwneud cynnydd da wrth helpu darparwyr i weithio gyda'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o Rwydweithiau Dysgu 14-19 wedi gwneud digon i ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu a darparu'n ddigonol ar gyfer eu hanghenion amrywiol a chymhleth. O ganlyniad, mae hyn yn cyfyngu dewisiadau'r bobl ifanc ac yn methu rhoi iddynt y cymwysterau sydd eu hangen arnynt i gael swyddi.

64 Gall llawer o ddysgwyr sydd mewn cysylltiad â'r TTI hefyd gael mynediad i ystod eang o weithgareddau fel cyrsiau medrau bywyd, gwaith ymddygiad gwybyddol, chwaraeon a gweithgareddau hamdden eraill a medrau byw yn annibynnol. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae gan y darparwyr gyrsiau cofrestredig gyda'r Rhwydwaith Coleg Agored. Mae hyn yn galluogi plant a phobl ifanc i gael credydau o'r gweithgareddau hyn.

65 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn defnyddio ystod o asiantaethau, gan gynnwys y sector gwirfoddol, i gyflwyno eu darpariaeth amgen. Mae gweithwyr mewn Prosiectau Cynhwysiad Ieuenctid yn rhoi cymorth da iawn i bobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu. Er enghraifft, mewn un awdurdod lleol, mae'r staff ar y Prosiect Cynhwysiad Ieuenctid yn gweithio gyda staff prosiectau gwirfoddol i ddarparu gwaith ataliol. Darperir ar gyfer cyfran sylweddol o blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gyflawni troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu dynnu'n ôl o ddarpariaeth addysg yn hyn o beth.

[6] Keeping Young People Engaged Roberts C (2005), Adroddiad Interim Blwyddyn 2, BCI
[7] (BCI, 2006:68)

66 Mae Partneriaethau Pobl Ifanc (PPIau) awdurdodau lleol hefyd yn fwy ymwybodol nag yr oeddent yn y gorffennol o bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid ac maent yn dechrau cynllunio ar eu cyfer. Maent yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu darpariaeth briodol sy'n cefnogi addysg y bobl ifanc hyn. Mae sefydliadau gwaith ieuenctid yn defnyddio ystod o ddulliau anffurfiol yn effeithiol i weithio gyda phobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd, a'r rheiny sydd fwyaf mewn perygl o niwed.

67 Yn y prosiectau mwyaf effeithiol ar gyfer y rheiny yn y system cyfiawnder ieuenctid, mae gweithwyr yn cynllunio'r gweithgareddau yn ofalus, yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer y gwaith ac ymddygiad pobl ifanc ac yn rhoi sylw da i fedrau sylfaenol. Oherwydd y dulliau hyn, mae pobl ifanc yn mwynhau eu sesiynau, yn eu mynychu'n dda, ac yn cydnabod a gwerthfawrogi eu cyflawniadau.

68 Er gwaethaf yr holl fentrau hyn, fodd bynnag, mae llawer o blant a phobl ifanc sy'n troseddu yn cael anhawster mawr yn dod o hyd i ddarpariaeth addas a chael mynediad iddi. Yn benodol, mae prinder lleoedd hyfforddiant yn y gwaith sy'n bodloni anghenion y grŵp hwn. Nid yw cynlluniau hyfforddiant yn y gwaith yn cynnig digon o gymwysterau galwedigaethol ar lefelau 1 a 2 i fodloni anghenion a diddordebau dysgwyr yn y grŵp oedran 14-19. Mae hwn yn rhwystr rhag ennyn diddordeb mwy o bobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant.

69 At ei gilydd, nid oes digon o ddarpariaeth medrau sylfaenol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu. Mae llawer o bobl ifanc yn tynnu'n ôl o hyfforddiant yn y gwaith oherwydd anawsterau medrau sylfaenol. Mae llawer o awdurdodau lleol yn gallu cynnig 2 awr yr wythnos yn unig ac mae hyn yn golygu bod y cynnydd a wna'r bobl ifanc yn rhy araf. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yn dechrau cydnabod bod angen mwy o gymorth medrau sylfaenol ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.

70 Mewn rhai achosion, mae cynlluniau hyfforddiant yn y gwaith a chynlluniau hyfforddiant galwedigaethol yn amharod i dderbyn pobl ifanc yn y grŵp targed. Er enghraifft, mae un darparwr wedi datblygu meini prawf ar gyfer presenoldeb mewn canolfan medrau cyfryngau newydd a allai wahaniaethu yn erbyn pobl ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan y TTI. Mae'r meini prawf hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bobl ifanc fynychu'r ysgol yn rheolaidd nes iddynt gyrraedd 16 oed.

71 Mae llawer o bobl ifanc dros 16 oed sy'n cael eu goruchwylio gan y TTI yn amharod i dderbyn lleoliadau hyfforddi, ac maent am wneud gwaith llanw am gyfnod byr neu dros dro yn unig. Nid yw presenoldeb ar gynlluniau hyfforddi yn dda bob amser. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r TTI fodloni ei darged mewn perthynas ag AHCh.

72 Mewn rhai ALlau, nid yw darparwyr AHCh bob amser yn goruchwylio pobl ifanc yn ddigonol yn ystod cyrsiau. Maent yn eu hanfon adref yn gynnar o gynlluniau hyfforddiant yn y gwaith oherwydd bod prinder lleoliadau gwaith. Mae hwn yn ffactor risg i lawer o bobl ifanc sy'n troseddu, gan fod mwyafrif yr achosion o droseddau ymhlith pobl ifanc yn digwydd ar ddiwedd y prynhawn a gyda'r nos[8].

73 Dim ond rhai TTIau sy'n gallu cael mynediad i ddarpariaeth sy'n bodloni anghenion a chefndiroedd amrywiol y plant a'r bobl ifanc y maent yn eu goruchwylio yn llawn.

[8] Arolwg Ieuenctid MORI 2001

74 Nid yw awdurdodau lleol yn comisiynu digon o brosiectau sy'n addas ar gyfer merched a menywod ifanc sy'n troseddu. Mewn llawer o achosion, mae'r cyfleoedd ar gyfer prosiectau a gweithgareddau yn y gymuned yn atgyfnerthu stereoteipiau ac nid yw'r rhain yn cael eu herio gan y plant a'r bobl ifanc, swyddogion y TTI na staff prosiect.

75 Nid oes digon o ddarpariaeth Gymraeg na dwyieithog ar gael. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i blant a phobl ifanc sy'n dewis darpariaeth Gymraeg 'ymuno' â gwasanaeth Cymraeg. Yn yr un modd, gall plant a phobl ifanc nad ydynt yn deall llawer o Gymraeg gael anhawster mawr yn ymgynefino â gweithgareddau ysgol a chymunedol sy'n arwain at waharddiadau posibl a risg cynyddol o droseddu.

76 Mewn rhai ALlau, mae TTIau yn integreiddio'r hawliau sylfaenol ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru yn llwyddiannus yn eu gwaith. Mae arolygiadau TTI diweddar wedi nodi pa mor dda y mae awdurdodau lleol a TTIau yn trefnu bod rhai o'r hawliau hyn ar gael i blant a phobl ifanc sy'n troseddu (Atodiad 2).

**Rheoli trefniadau trosglwyddo ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n gadael gwarchodaeth**

77 Mewn hanner o'r TTIau, mae parhad darpariaeth rhwng gwarchodaeth a'r gymuned yn dda, ac yn yr achosion gorau, mae'r plentyn neu'r person ifanc yn parhau â gwaith AHCh a ddechreuodd dan warchodaeth, ar ôl ei ryddhau. Yn yr achosion hyn, mae aelodau o dîm cymorth ymddygiad yr ALl yn ymweld â lleoliadau diogel gyda gweithiwr addysg y TTI. Mae'r lleoliad diogel wedyn yn pennu anghenion y plentyn neu'r person ifanc o ran AHCh cyn ei ryddhau, a darperir addysg.

78 I rai TTIau, nid oes digon o gynrychiolaeth gan awdurdodau lleol yn y cyfarfodydd Gorchymyn Cadw a Hyfforddi (GCH) yn yr ystâd ddiogel. Mae'r cyfarfodydd hyn yn adolygu'r cynnydd AHCh a wna pobl ifanc dan warchodaeth ac yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer parhau â'u dysgu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

79 Mewn rhai TTIau, mae diffyg dewis yn y cwricwlwm a gynigir i bobl ifanc o Gymru sydd yn y ddalfa yn Lloegr. Ni all y bobl ifanc hyn ddilyn y cwricwlwm Cymreig yn ddigon da. Mae hyn hefyd yn golygu ei bod yn anodd i'r bobl ifanc hyn ail-ymgysylltu ag addysg prif ffrwd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

80 Mewn llawer o TTIau, mae problem i bobl ifanc ôl-16 wrth sicrhau lleoliadau hyfforddi addas mewn modd amserol ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Caiff hyn effaith andwyol ar eu cymhelliant. Mae cytundeb yn awr rhwng TTIau a Gyrfa Cymru sy'n ceisio helpu sicrhau cyn lleied o oedi â phosibl wrth ddod o hyd i leoliadau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gwarchodaeth.

81 Mae llawer o adrannau addysg yn yr ystâd ddiogel yn rhoi cofnodion o gyflawniad a chyrhaeddiad i TTIau. Fodd bynnag, gall fod oedi cyn i weithwyr TTI gael y wybodaeth hon.

82 Mae'r rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc sy'n gadael canolfan gadw yn mynychu darpariaeth cwricwlwm amgen yn hytrach nag ysgol. Mae hyn oherwydd bod yr ysgol yn tynnu'r person ifanc oddi ar y gofrestr ysgol pan gânt ddedfryd warchodol.

Weithiau, mae gweithwyr TTI yn trafod fesul achos gyda phenaethiaid i gadw lleoedd yn agored i'r rheiny sy'n cael dedfrydau byr. Er nad ydynt yn gallu darparu 25 awr lawn o addysg ar gyfer pob un o'r plant a'r bobl ifanc, mae llawer o ddarparwyr a TTIau yn ymdrechu'n llwyddiannus i gyflenwi pecynnau, gan gynnwys profiad gwaith a gweithgareddau sy'n herio plant a phobl ifanc ac yn gwella eu hunan-barch. Fodd bynnag, gall y ddarpariaeth 'ar wahân' hon atgyfnerthu rhaniadau a rhwystro cyfranogiad mewn addysg prif ffrwd.

## Pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn monitro canlyniadau dysgu?

83 Nid yw'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol yn casglu data ar gyrhaeddiad na chyflawniadau unigolion na'r grŵp o blant a phobl ifanc sy'n cael eu goruchwylio gan TTIau yn y gymuned. Nid yw canlyniadau'n cael eu mesur yn feintiol, ni osodir targedau, ac nid yw'r tueddiadau i wella safonau yn cael eu monitro.

84 Nid yw awdurdodau lleol yn monitro canlyniadau dysgu grwpiau eraill yn ddigon da, sy'n cynnwys niferoedd sylweddol o blant a phobl ifanc sy'n troseddu. Er enghraifft, mae'n debygol bod gan blant a phobl ifanc sy'n troseddu anghenion dysgu ychwanegol[9]. Nid yw awdurdodau lleol yn mesur canlyniadau yn ddigon da ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ffordd sy'n ddefnyddiol at ddibenion cymharu. Maent yn ei chael yn haws mesur canlyniadau dysgu fel presenoldeb neu ennill cymwysterau na gwella hunanhyder neu sefydlogrwydd emosiynol. Mae hyn yn ei gwneud yn anos cymharu cyflawniadau a chynnydd y plant a'r bobl ifanc hyn mewn gwahanol leoliadau.

85 Canfu adroddiad diweddar Estyn[10] fod llawer o wybodaeth werthfawr am ganlyniadau dysgu ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei cholli wrth iddynt drosglwyddo rhwng sectorau addysg, er enghraifft, rhwng y blynyddoedd cynnar ac addysg gynradd a rhwng addysg uwchradd a darpariaeth ôl-16. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn arfarnu effaith ymyriadau cynnar a/neu arbenigol.

86 Canfu'r adroddiad hefyd nad yw ysgolion, colegau a darparwyr eraill bob amser yn cael gwybodaeth gywir ac amserol am gyflawniadau blaenorol dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn fwy tebygol o ddigwydd lle mae dysgwyr yn symud yn rheolaidd ac fe gaiff effaith fawr ar rai o'r dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r rheiny sy'n cael eu gwahardd, plant y gofelir amdanynt a phlant a phobl ifanc sy'n troseddu.

87 Mae systemau casglu data mewn awdurdodau yn canolbwyntio'n dda ar ganlyniadau dysgu ar gyfer disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ond nid ydynt fel arfer yn cynnwys y rheiny ar gyfer disgyblion mewn darpariaeth addysg ar wahân i yn yr ysgol (EOTAS). O ganlyniad, nid yw awdurdodau bob amser yn gwybod am ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn y ddarpariaeth arall hon.

88 At ei gilydd, nid oes gan lawer o Bartneriaethau Pobl Ifanc systemau ar waith i fesur yr hyn y mae pobl ifanc yn ei ddysgu, pa mor dda y maent yn dod yn eu blaenau, na pha mor dda y maent yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol. Er bod gan lawer o TTIau ddewislen dda o brosiectau cymunedol y maent yn trefnu ei bod ar gael i'r plant a'r bobl ifanc y maent yn eu goruchwylio, mae hi bellach yn glir sut mae'r prosiectau hyn yn cyfrannu at eu datblygiad neu'u cyflawniadau addysgol cyffredinol. Nid yw awdurdodau lleol a TTIau yn arfarnu effaith eu cymorth ar welliannau ym mhresenoldeb neu gyrhaeddiad plant a phobl ifanc.

---

9 Prifysgol Rhydychen, 2002 Validity and Reliability of Asset: Findings from the First Two Years of the Use of Asset

10 'Arfarnu canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol', Chwefror 2007

89 Mae safonau ac ansawdd y ddarpariaeth amgen ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu yn amrywio. Mewn rhai awdurdodau, nid yw'r gwaith a ddisgwylir gan blant a phobl ifanc mewn rhai o'r lleoliadau amgen yn cael ei osod ar lefel ddigon uchel, felly nid yw'r dysgwyr hyn bob amser yn cael cyfle i gael achrediadau priodol. Nid oes sylfaen na chydbwysedd eang i'r cwricwlwm bob amser ac nid yw'r staff sy'n gysylltiedig yn cael mynediad digonol i wasanaeth ymgynghorol yr awdurdod addysg lleol i'w cefnogi wrth ei gyflwyno.

90 Mae'r broses o fonitro darpariaeth yn amrywio'n amhriodol rhwng awdurdodau. Mewn un awdurdod, mae'r gwasanaeth cymorth ymddygiad yn monitro ansawdd addysgu a dysgu ar raglenni cynhwysiad. Yn yr achos hwn, mae safonau cyflawniadau plant a phobl ifanc yn dda a gallant gael achrediad.

91 Mewn awdurdod arall, er bod llawer o bobl ifanc yn ennill medrau allweddol pwysig trwy gymryd rhan mewn prosiectau a gweithgareddau, nid yw eu cyflawniadau mewn medrau allweddol yn cael eu cydnabod yn swyddogol. Nid yw rhai pobl ifanc dros yr oedran ysgol gorfodol sydd mewn cysylltiad â'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn cyflawni cystal ag y gallent. Mae hyn oherwydd nad ydynt yn cael mynediad i addysg a hyfforddiant sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion.

92 Caiff niferoedd sylweddol o blant a phobl ifanc sy'n troseddu eu cynrychioli mewn dau grŵp nad ydynt yn gwneud yn ddigon da yn eu harholiadau TGAU. Mae un grŵp yn cynnwys pobl ifanc sy'n cael addysg ar wahân i yn yr ysgol (EOTAS). Fodd bynnag, gwnânt gynnydd rhesymol â'u hymddygiad a'u presenoldeb, sy'n eu helpu ar leoliadau gwaith. Mae llawer ohonynt yn ennill medrau galwedigaethol gwerthfawr o ganlyniad. Plant y gofelir amdanynt yw'r ail grŵp, sydd o'u cymharu â phlant tebyg mewn ardaloedd eraill o Gymru, yn perfformio'n wael, gyda rhyw 20% yn ennill dau gymhwyster TGAU mewn pynciau gradd C neu'n uwch.

93 Mae llawer o bobl ifanc sy'n troseddu yn datblygu medrau galwedigaethol da sy'n eu helpu i ddod o hyd i swydd ystyrlon a'i chadw. Fodd bynnag, nid yw llawer o gyflogwyr bob amser yn cydnabod ystod y cymwysterau addysgol amgen y mae plant a phobl ifanc yn eu hennill ar eu lleoliadau AHCh neu yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc. Nid yw cyflogwyr weithiau'n rhoi gwerth i'r medrau ymarferol y mae llawer o'r bobl ifanc yn eu hennill tra byddant yn ymgymryd â darpariaeth AHCh. Mae hyn yn arbennig o wir yn yr achosion lle mae pobl ifanc wedi cael mynediad i gyrsiau, ond wedyn yn gweld eu bod yn cystadlu yn erbyn eraill sydd â chymwysterau mwy 'traddodiadol'.

## Atodiad 1

### Anghenion dysgu plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid

Mae llawer o blant a phobl ifanc sy'n troseddu yn profi lefelau uchel o anfantais. Mae ganddynt anghenion cymhleth, gan gynnwys hanes o gamddefnyddio sylweddau, anghenion iechyd meddwl, a chefndiroedd teuluol rhwygol.

Caiff cyfran sylweddol brofiadau negyddol iawn yn yr ysgol. Mewn astudiaeth ddiweddar yng Nghymru a Lloegr[11], roedd 40% yn ystyried eu profiad o'r ysgol yn 'ofnadwy'. Dywedodd bron i 90% eu bod yn absennol o'r ysgol o leiaf unwaith yr wythnos. Roedd dau o bob tri wedi gadael yr ysgol erbyn yr oedran gadael gorfodol, naill ai oherwydd eu bod wedi cael eu gwahardd neu oherwydd eu bod yn syml wedi rhoi'r gorau i fynd yno. Mae hyn yn golygu nad yw'r plant a'r bobl ifanc hyn yn cael eu hawl i addysg lawn ac nid ydynt yn cyrraedd eu potensial.

Mewn un TTI yng Nghymru, canfu arolygwyr fod plant a phobl ifanc wedi cael problemau â'u haddysg mewn 67% o'r achosion a arolygwyd, gan gynnwys problemau yn ymwneud â bwlio, triwantiaeth a gwaharddiadau dros dro a pharhaol. O'r rheiny oedd wedi'u gwahardd, nid oedd 33% yn cael mynediad digonol i 25 awr o addysg, hyfforddiant na chyflogaeth bob wythnos.

Mae llawer o'r plant a'r bobl ifanc hyn yn deall eu cymhelliant eu hunain i ddysgu yn dda. Cyfwelodd YouthLink Scotland[12] â throseddwyr ifanc dan warchodaeth am eu profiadau o ddysgu:

> *"Mae'r prif bethau sy'n achosi eu hymddygiad aflonyddgar, a nodwyd gan y bobl ifanc, yn cynnwys diflastod, pwysau gan gyfoedion a thynnu sylw atynt eu hunain o flaen eu ffrindiau. Roeddent hefyd yn cyfeirio at rwystredigaeth ynglŷn â'r ffaith nad oedd athrawon yn esbonio pethau'n dda iawn, neu fod y dysgu yn symud yn rhy gyflym, neu eu bod yn ei chael yn rhy anodd dal i fynd ar ôl cael eu gadael ar ôl mewn gwersi. Dywedodd rhai o'r grŵp, er eu bod yn cydnabod eu bod wedi ymddwyn yn aflonyddgar, y dylai mwy fod wedi cael ei wneud er mwyn eu helpu i oresgyn y materion a'r problemau sydd wrth wraidd ymddygiad o'r fath. Dywedon nhw hefyd fod i ffactorau y tu allan i'r ysgol fel dylanwad diod a chyffuriau ran fawr yn ymddygiad aflonyddgar disgyblion."*

Mae un arolwg o blant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid, a gynhaliwyd gan TTI yng Nghymru[13], yn dangos bod llawer ohonynt yn cwestiynu perthnasedd y dysgu a gânt. Maent yn aml yn teimlo'n ddiflas, yn rhwystredig ac yn flin oherwydd bod yr ysgol yn gwneud iddynt astudio pynciau y maent yn eu cael yn anodd eu deall. Mae disgyblion eraill ac athrawon yn aml yn gwneud hwyl am eu pen os ydynt yn dangos diffyg dealltwriaeth.

---

[11] Gwella llythrennedd a rhifedd pobl ifanc dan warchodaeth ac yn y gymuned sydd wedi ymddieithrio – adroddiad interim cryno o 18 mis cyntaf yr astudiaeth NRDC 2005

[12] Pwyllgor Addysg Senedd Yr Alban – Pupil Motivation Inquiry – YouthLink Scotland 2005

[13] 'Rhwystrau rhag Dysgu', Tîm Troseddau Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr 2007

Soniodd arolwg y Ganolfan Ymchwil a Datblygu Genedlaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd oedolion am farn fwy cadarnhaol am ddarpariaeth ôl-16.

> *"Roedd llawer o bobl ifanc (69 y cant) wedi cael rhywfaint o addysg/hyfforddiant ers iddynt adael yr ysgol, ac roedd hyn yn cael ei ystyried yn fwy cadarnhaol. Roeddent yn hoffi'r awyrgylch mwy hamddenol, hyblyg, 'aeddfed', y gwersi byrrach a'r ffaith fod tiwtoriaid yn gyffredinol yn dangos mwy o barch atynt. Roedd rhai o'r bobl ifanc hyn yn ei chael yn anodd eistedd mewn un lle, yn gwneud yr un peth yn rhy hir."*

Canfu'r un adroddiad fod agweddau at brofiad gwaith a hyfforddiant galwedigaethol yn gadarnhaol ar y cyfan.

> *"Roedd y rhain yn cael eu gweld fel ffordd o baratoi ar gyfer cyflogaeth, fel rhywbeth gweithgar ac felly nid yn ddiflas, ac yn fwy priodol ar gyfer eu cyfnod bywyd. Roedd agweddau ar yr amgylchedd cymdeithasol – fel gallu gwneud paned, sgwrsio neu adael y radio ymlaen – yn cael eu hystyried yn nodweddiadol o waith yn hytrach nag ysgol, a dywedwyd eu bod yn bwysig."*

Roedd arolwg TTI Cymru yn dangos bod swyddi delfrydol llawer o bobl ifanc yn cynnwys bod yn blastrwr, yn saer coed, yn fecanydd neu'n friciwr. O'r herwydd, cymwysterau sy'n berthnasol i gyflogaeth sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf.

Canfu ymchwil NRDC fod y plant a'r bobl ifanc hyn yn mwynhau sesiynau trafod, yn nodweddiadol mewn dosbarthiadau drama a medrau bywyd, yn ogystal â chelf a chyfrifiaduro a chael cymorth un i un. I rai, roedd y cyfle i ddal i fyny â phethau a gollwyd yn yr ysgol neu ennill cymwysterau ar gyfer gwaith yn y dyfodol hefyd yn cael eu hystyried yn werthfawr.

## Atodiad 2

### Ymestyn hawliau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu

Mae rhai TTIau yn integreiddio'r hawliau ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru yn eu gwaith yn llwyddiannus. Mae arolygiadau TTI diweddar wedi sôn ynglŷn â pha mor dda y mae TTIau ac awdurdodau lleol yn trefnu bod yr hawliau sylfaenol ar gael i blant a phobl ifanc sy'n troseddu.

### Lleisio barn

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc gael ystyriaeth i'w barn wrth gynllunio darpariaeth addysg a hyfforddiant addas. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gallu sicrhau y byddant yn bodloni dewisiadau cyntaf plant a phobl ifanc.

Yn y TTIau gorau, mae gweithwyr yn ystyried gwerthoedd a diwylliant plant a phobl ifanc. Mae gan rai TTIau systemau da ar gyfer ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Mae'r TTIau yn gofyn i ddefnyddwyr gwasanaeth roi sylwadau ar gynnwys, lleoliad ac amseriad gweithdai ymddygiad troseddol ac awgrymu ffyrdd o wneud gwelliannau. Yn gyffredinol, mae TTIau yn defnyddio barn pobl ifanc i lywio datblygiadau a chynnal peilot o'r rhain gyda'r bobl ifanc eu hunain.

Mewn rhai TTIau, mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn mentrau cyfranogiad ieuenctid. Mewn un TTI, mae'r TTI yn casglu barn plant a phobl ifanc ac yn darparu adroddiadau ar gyfer y Grŵp Defnyddwyr Llys Ieuenctid, y Fforwm Ieuenctid, fforymau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bartneriaeth Pobl Ifanc. Mewn TTI arall, mae gweithdrefn gwyno ddwyieithog ar waith ac maent yn defnyddio taflenni esboniadol i esbonio'r weithdrefn yn glir i blant a phobl ifanc.

Mae un TTI wedi comisiynu adroddiad ymchwil o'r enw 'Hawl i Ddysgu'[14]. Mae'r adroddiad hwn yn holi plant a phobl ifanc am y rhwystrau sy'n eu hwynebu. Mae'r TTI yn bwriadu defnyddio canfyddiadau'r adroddiad hwn i ddylanwadu ar y rhwydwaith 14-19 i ddatblygu mwy o ddarpariaeth a fydd yn bodloni anghenion plant a phobl ifanc sy'n troseddu yn well.

Mae angen i rai TTIau, fodd bynnag, ddatblygu eu gweithdrefnau ymgynghori, fel eu bod yn ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn fwy rheolaidd. Wedyn, dylent ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio arfer a gwella gwasanaethau.

### Cymryd rhan/cael eich cynnwys

Mewn rhai TTIau, mae gweithwyr yn helpu plant a phobl ifanc i gael eu cynnwys yn eu cymunedau lleol. Mae un person ifanc wedi treulio llawer o fisoedd yn gwella man hamdden yn ei bentref gartref. Mewn enghraifft arall, mae grŵp o bobl ifanc a oedd wedi bod yn difrodi ceir yn eu pentref yn awr yn ymgymryd â chynllun gwneud iawn gyda'u cymuned leol. Mae hyn yn helpu pobl ifanc i atgyweirio rhywfaint o'r difrod a achoswyd gan eu hymddygiad troseddol.

[14] 'Rhwystrau rhag Dysgu', Tîm Troseddau Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr 2007

Mewn TTI arall, mae'r awdurdod lleol yn galluogi pobl ifanc, trwy eu cyfranogiad yn y Bartneriaeth Pobl Ifanc a'r Cyngor Ieuenctid lleol, i gyfrannu barn at ddatblygiad eu hardal leol.

## Iechyd a lles

Mae pob TTI yn asesu ffordd o fyw, camddefnyddio sylweddau, iechyd corfforol, emosiynol a meddwl y plant a'r bobl ifanc y maent yn eu goruchwylio fel mater o drefn.  Gwnânt hyn trwy ddefnyddio offeryn asesu'r BCI, sef Asset.  Mewn rhai TTIau, mae gweithwyr wedi dechrau mynd i'r afael â'r materion iechyd a lles hyn.  Er enghraifft, mewn un ardal, mae menter Undeb Rygbi Cymru yn annog ffyrdd iach o fyw trwy rygbi cymunedol.  Mewn TTIau eraill, ceir cysylltiadau da â gweithwyr camddefnyddio sylweddau.  Mae'r gweithwyr hyn yn darparu gwasanaeth gwybodaeth, addysg ac ymgynghorol gwerthfawr ar yr holl faterion sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau.  Mae'r gweithwyr yn rhoi cyngor a chymorth uniongyrchol i blant a phobl ifanc, yn enwedig lle maent yn amharod i fynychu gwasanaethau cyffuriau prif ffrwd.

Mae TTIau eraill yn gwneud gwaith da iawn â phlant a phobl ifanc yn enwedig o ran helpu rheoli dicter, lleihau ymddygiad troseddol, a gwella agweddau tuag at ddioddefwyr a'u helpu i ddeall problemau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn well.

Fodd bynnag, nid yw TTIau bob amser yn gwneud digon o ddefnydd o brosiectau a gweithgareddau sydd eisoes yn bod i roi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc strwythuro eu hamser hamdden.  Mewn rhai TTIau, er bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn cynlluniau gweithgareddau haf fel Splash, nid yw'r rheiny sy'n ymwneud â'r TTI yn gyffredinol yn cael digon o gyfleoedd hamdden strwythuredig.

## Mynediad at wybodaeth ac arweiniad

Mae gan bron pob un o'r TTIau berthynas dda a chynhyrchiol gyda Gyrfa Cymru.  Mae protocol ar waith rhwng TTIau a Gyrfa Cymru, sy'n golygu eu bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i helpu pobl ifanc dros 16 oed i sicrhau addysg a hyfforddiant.

Yn yr enghreifftiau gorau, mae Gyrfa Cymru wedi neilltuo ymgynghorydd gyrfaoedd cyswllt enwebedig sy'n mynychu cyfarfodydd wythnosol i drafod achosion unigol.  Mewn un awdurdod, mae cyfarfodydd wythnosol yn y TTI lle caiff y swyddogion cymorth disgyblion a'r ymgynghorwyr gyrfaoedd eu gwahodd ar sail rota.  Mae hyn yn golygu bod fforwm da ar gyfer nodi anghenion cleientiaid a dod â gweithwyr cymorth at ei gilydd.  Mae Gyrfa Cymru yn llunio taflen ffeithiau ddefnyddiol ar gyfer ymgynghorwyr gyrfaoedd gan roi cyngor iddynt am oblygiadau cael hanes troseddol ar waith mewn proffesiynau amrywiol.

Mae Gyrfa Cymru yn gwneud defnydd da o'r Porth Ieuenctid ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny y mae'n anodd eu lleoli mewn hyfforddiant yn y gwaith.  Mewn un awdurdod, mae Gyrfa Cymru a'r TTI wedi sicrhau cytundeb gan y cyngor i ddarparu banc o leoliadau gwaith ar gyfer y rheiny sy'n cael eu cyfeirio gan y TTI.  Mae Gyrfa Cymru hefyd wedi gwneud cynnydd da wrth ymdrin â'r broblem sy'n codi pan fydd Cymry yn y ddalfa yn Lloegr.  Mae ymgynghorydd Gyrfa Cymru yn ymweld â bron pob person ifanc o Gymru sy'n gadael un o'r Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn Lloegr

pan fyddant ar fin gadael gwarchodaeth.  Mae cytundeb lefel gwasanaeth newydd ar waith hefyd i Gyrfa Cymru ymweld â phob un o'r rheiny sydd yn y ddalfa yng Nghymru cyn iddynt gael eu rhyddhau.  Mae hyn yn helpu'r plentyn neu'r person ifanc i addasu ei fywyd ar ôl bod yn y ddalfa.

Mae protocolau effeithiol rhwng adrannau addysg a Gyrfa Cymru i fynychu cyfarfodydd cynllunio terfynol er mwyn eu hwyluso wrth iddynt ddychwelyd yn gynnar i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar ôl eu rhyddhau.

Fodd bynnag, nid yw plant a phobl ifanc mewn lleoliadau diogel yn Lloegr gael mynediad i CLIC ar-lein Gyrfa Cymru oherwydd materion diogelwch yn y lleoliad diogel.  Gall hyn rwystro'r trosglwyddo didrafferth o ran dysgu rhwng gwarchodaeth a'r gymuned.

## Atodiad 3

### Enghreifftiau o arfer dda

**Enghreifftiau o gymorth awdurdod lleol da ar gyfer TTIau**

**Rhoi cymorth i TTIau yn un o Gymoedd De Cymru: Gwella mynediad i gyfleusterau**

Mae'r Pennaeth Dysgu Gydol Oes yn aelod o Grŵp Rheoli'r TTI ac yn cefnogi'r TTI trwy roi mynediad am ddim i holl adeiladau a chyfleusterau'r gwasanaeth ieuenctid. Mae hyn yn golygu bod staff TTI yn gallu cael mynediad i bob pecyn hyfforddi i gefnogi eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Mae ganddynt gyswllt hefyd â swyddog Gwobr Dug Caeredin a gallant ddefnyddio arbenigedd 22 gweithiwr ieuenctid yr awdurdod.

**Cynyddu adnoddau ar gyfer darpariaeth AHCh: Sut mae TTIau ac ALlau yn cael mynediad i gyllid ychwanegol**

- prosiect cyflogadwyedd ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed sy'n gadael addysg a rhaglen ymyriad ar gyfer plant 8-12 oed sydd mewn perygl o droseddu, wedi'i gefnogi gan gyllid PPI;
- gweithiwr medrau sylfaenol sy'n cael ei ariannu gan y rhwydwaith dysgu 14-19 i barhau â darpariaeth yn y gwaith yn y TTI;
- mae un TTI wedi elwa ar raglen Leonardo da Vinci yr UE sydd wedi datblygu rhaglenni ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl ac yn eu helpu i symud rhwng addysg a chyflogaeth;
- pump Ymgynghorydd Porth Ieuenctid Gyrfa Cymru i roi cymorth unigol a hyblyg i fodloni anghenion y TTI o gyllid BCI;
- cyllid Ewropeaidd i sefydlu 'Fforwm Cyflogwyr Cyfrifol' ar gyfer 'pobl ifanc mewn angen' sy'n ei chael yn anodd dod o hyd i brofiad gwaith a swydd mewn ardal wledig iawn;
- prosiect ymestyn hawliau sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae hwn yn cynnwys elfennau ar iechyd rhywiol, Cadw mewn Cysylltiad, prosiect iechyd emosiynol – Squash the Blues – a phrosiect ymgynghorol iechyd galw i mewn; a
- gweithiwr cymorth mewn prosiect gwarchodaeth sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus awdurdodau lleol

**Darpariaeth amgen sy’n defnyddio dysgu trwy wneud yng Ngorllewin Cymru: Llwyddiant ystod o ddarpariaeth**

Mae’r prosiect hwn, sydd wedi bod ar waith er 2004, yn gweithio gyda hyd at 10 o bobl ifanc yn CA4 sy’n dilyn cwricwlwm amgen. Mae’r bobl ifanc hyn wedi bod y tu allan i’r system ers sawl blwyddyn, rhai ohonynt ers yr ysgol gynradd. Mae’r dull yn ymwneud yn wirioneddol ag ennyn diddordeb dysgwyr ifanc trwy wneud pethau. O ganlyniad, mae pobl ifanc ar y prosiect yn dechrau cael amgyffrediad newydd o ddysgu.

Mae’r prosiect yn cynnwys agwedd alwedigaethol ac yn cyflwyno cymwysterau dilyniant a chymwysterau mewnol. Adeiladodd y bobl ifanc go-cart mewn coleg lleol.

Mae cwricwlwm craidd o ddeunyddiau mathemateg, Saesneg, TGCh a deunyddiau graffigol wedi’u hachredu ar lefel mynediad. Mae gan bob un o’r bobl ifanc gynlluniau dysgu unigol. Mae’r Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad yn ariannu’r prosiect fel rhan o’i ddarpariaeth AAA. Mae ymgynghorydd personol Gyrfa Cymru yn cysylltu â nhw cyn iddynt adael y prosiect ac yn aros gyda nhw nes bod ganddynt gynlluniau dilyniant clir. Os yw’r person ifanc mewn gofal, caiff ei roi yn y tîm dros 15 oed sy’n cael eu paratoi ar gyfer ymdrin â phobl ifanc sy’n agored i niwed pan fyddant yn gadael yr ysgol.

O’r nifer a dderbyniwyd yn 2005, graddiodd chwech o bobl ifanc o’r cynllun yr oeddent wedi bod yn mynychu am dwy flynedd. Aeth pump ohonynt ymlaen i waith, hyfforddiant neu addysg bellach.

**Defnyddio astudiaethau’r cyfryngau i ennyn diddordeb pobl ifanc risg uchel yn Ne Cymru**

Mae un awdurdod lleol wedi datblygu prosiect y cyfryngau sy’n targedu tua 12 o bobl ifanc risg uchel sy’n hysbys i’r TTI. Mae’n cynnal pobl ifanc sydd dan anfantais a phobl ifanc aflonyddgar yn llwyddiannus iawn mewn addysg a hyfforddiant. Maent yn ennill cymwysterau achrededig ac yn datblygu medrau sy’n briodol naill ai i gyflogaeth neu addysg bellach a hyfforddiant, trwy greu ffilmiau a rhaglenni, a darlledu dros y rhyngrwyd.

Mae’r canlyniadau ar gyfer pobl ifanc yn dda. Maent yn ennill cymwysterau achrededig ac yn mynd ymlaen i addysg bellach. Cynhaliodd y prosiect seremoni wobrwyo fawr mewn pafiliwn lleol i ddathlu llwyddiant y bobl ifanc.

**Monitro cynnydd mewn awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru: Enghraifft o gydweithio effeithiol**

Mae perthynas waith dda rhwng gweithiwr addysg y TTI a swyddogion yr AALl. Mae'r cydweithredu da hwn yn helpu plant a phobl ifanc i gael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r AALl a'r TTI yn cyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd am blant a phobl ifanc oedran ysgol, ac mae gan bob un ohonynt gynlluniau addysg unigol a chânt gymorth i gael mynediad i addysg. Hefyd, mae gan yr AALl system olrhain ddefnyddiol ar waith sy'n galluogi iddo wybod am yr addysg y mae pob plentyn neu berson ifanc wedi'i chael.

**Enghreifftiau o brosiectau wedi'u seilio yn y TTI**

Mae ynadon lleol a myfyrwyr drama o'r coleg yn efelychu ystafell y llys ac mae pobl ifanc yn penderfynu ar y ddedfryd, yn dweud pam maent wedi'i dewis ac yn holi cwestiynau i'r ynadon. Mae gweithwyr TTI, heddwas, nyrs gymunedol (CPN) a gweithiwr o brosiect cyffuriau lleol yn trafod achosion troseddau gyda'r bobl ifanc ac yn esbonio sut, fel tîm, maent yn cefnogi pobl ifanc sy'n troseddu yn ogystal â'u dioddefwyr. Mae athrawon yn mynd i'r afael â'r gwaith hwn yn ystod gwersi ABCh.

Mae'r bobl ifanc yn deall cost bersonol troseddau yn well oherwydd:

- maent yn cymryd rhan yn y digwyddiad yn llawn ac yn ei fwynhau;
- maent yn holi cwestiynau treiddgar i bobl broffesiynol allweddol;
- maent yn clywed tystiolaeth uniongyrchol o'r modd y mae trosedd yn effeithio ar y troseddwr a'r dioddefwr; ac
- mae deunyddiau'r cwrs yn ddeniadol, yn hygyrch ac wedi'u teilwra i bobl ifanc.

**Defnyddio drama i atal troseddu mewn cymuned yng nghymoedd De Cymru**

**Enghraifft o brosiect sy'n seiliedig ar sector gwirfoddol: Mae'r canlynol yn enghraifft o'r modd y gall y TTI, mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol, wella darpariaeth.**

**Darpariaeth amgen mewn ardal drefol fawr sy'n cael ei rhedeg gan y sector gwirfoddol**

Yn y prosiect hwn sy'n cael ei redeg gan sefydliad gwirfoddol, mae gweithwyr allweddol yn rhoi cymorth ardderchog i bobl ifanc ar sail un i un. Mae'r holl gyfranogiad gan bobl ifanc ar sail wirfoddol. Yn ystod y cyfnod sefydlu, mae'r bobl ifanc yn pennu eu nodau eu hunain. Mae staff yn rhoi cymorth â medrau bywyd, medrau byw yn annibynnol, paratoi ar gyfer gwaith a chymorth gyda llythrennedd a rhifedd. Maent yn rhoi Cynllun Dysgu Unigol (CDU) a chofnod cyflawniad i bob person ifanc. Mae staff yn cefnogi pobl ifanc yn dda i ennill dyfarniadau ASDAN.

**Enghreifftiau o brosiectau gwasanaethau ieuenctid**

**Prosiect lleol ar gyfer lleihau troseddau yn Ne Cymru**

Mae'r prosiect hwn yn gweithio gyda chwmni bysiau lleol i ddatblygu ffyrdd o leihau'r drosedd o daflu cerrig at fysiau ymhlith pobl ifanc. Mae'r bobl ifanc yn creu ffilm lle maent yn cyfweld â staff y cwmni bysiau a phobl ifanc ynglŷn ag effaith eu gweithredoedd. Maent hefyd yn chwarae rôl gyrrwr bws a theithiwr yn ystod ymosodiad taflu cerrig.

Trwy'r prosiect hwn, mae pobl ifanc yn cynyddu eu hunan-barch a gallant adnabod effaith gweithredoedd eu cyfoedion a'u gweithredoedd eu hunain. O ganlyniad, mae'r taflu cerrig wedi dod i ben erbyn hyn ac ni fydd y cwmni bysiau yn rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau bysiau ar yr ystâd mwyach.

Mae'r prosiect yn defnyddio'r ffilm yn dda i godi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc ac oedolion, trwy fynd ag ef i ysgolion a chymunedau lleol.

**Prosiect atal troseddau mewn cymuned yn y cymoedd**

Mae gweithwyr yn gweithio'n agos â'r Gwasanaeth Tân i ddarparu menter gyffrous a gwerthfawr o'r enw 'Arson rap'. Mae'r gweithgaredd hwn sy'n seiliedig ar gerddoriaeth yn rhoi cyfleoedd da iawn i bobl ifanc ddysgu am beryglon a chanlyniadau llosgi bwriadol a'u trafod. Mae pobl ifanc yn paratoi ac yn recordio 'rapiau' cerddorol i rybuddio pobl ifanc a'u haddysgu. Maent yn cynhyrchu cryno ddisgiau o ansawdd da.

**Enghreifftiau o brosiectau i Ymestyn Hawliau**

**'Lleisio Barn' yng Ngorllewin Cymru**

Mewn un awdurdod, mae plant a phobl ifanc sy'n mynychu rhaglen amgen yn cymryd rhan mewn fforwm gwaith ar hawliau gyda Phlant mewn Angen a'r NSPCC. Ysgrifennodd grŵp o'r bobl ifanc hyn at eu AC a chawsant hawl prydau ysgol am ddim yn eu prosiect. Cawsant hefyd ganolfan barhaol ar gyfer eu grŵp mewn tŷ gwag yr oedd yr awdurdod lleol yn berchen arno.

**Prosiect yn seiliedig ar chwaraeon ac iechyd yng Ngogledd Cymru**

Datblygwyd rhaglen athletau flynyddol, deg sesiwn, mewn coleg lleol, ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu ac nad oes ganddynt unrhyw brofiad blaenorol o ystod o chwaraeon, oherwydd presenoldeb gwael yn yr ysgol. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar fagu hyder a chreu diddordeb newydd trwy herio plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial ac atal ymddygiad troseddol a gwrthgymdeithasol. Caiff pob plentyn a pherson ifanc dystysgrif am eu Gwobr Dug Caeredin. Mae staff TTI yn cefnogi ac yn cyflwyno'r rhaglenni hyn yn frwdfrydig.

**Arfer dda wrth drosglwyddo gwybodaeth am yrfaoedd**

I blant neu bobl ifanc o oedran ysgol sy'n dychwelyd i un awdurdod lleol o'r ystâd ddiogel, darparodd cwmni Gyrfaoedd gymorth angenrheidiol i safon dda. Roedd y plant a'r bobl ifanc yn cyfarfod ag ymgynghorydd gyrfaoedd cyn iddynt gael eu rhyddhau. Trosglwyddodd yr ymgynghorydd y wybodaeth yn effeithiol o Connexions yn Lloegr i helpu bodloni eu hanghenion.

## Geirfa/cyfeiriadau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **ASDAN** | Defnyddir cymwysterau a dyfarniadau'r Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu gan ysgolion a cholegau i roi cyfleoedd i ddysgwyr 14-19 ddatblygu medrau personol, cymdeithasol a dinasyddiaeth weithredol, medrau allweddol a medrau allweddol ehangach. |
| **Asset** | Asset yw'r fframwaith asesu safonol a ddefnyddir gyda phobl ifanc ym mhob cyfnod o'r system cyfiawnder ieuenctid o'r Rhybudd Terfynol ac ar ôl hynny. Mae wedi'i fwriadu i helpu ymarferwyr i ddadansoddi achosion gwaelodol ymddygiad troseddol person ifanc a chynllunio rhaglenni ymyriad priodol yn unol â hynny. |
| **Asset AHCh** | Dyma ran o fframwaith Asset sy'n edrych ar anghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth plant a phobl ifanc sy'n troseddu. Mae'n bwysig trefnu bod yr holl wybodaeth hon ar gael er mwyn gallu cydlynu unrhyw gynlluniau TTI yn dda yn ddiweddarach ochr yn ochr â chynlluniau AHCh eraill a allai fod gan y plentyn neu'r person ifanc. |
| **BCI** | Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru a Lloegr yn darparu arweinyddiaeth ar gyfer y system cyfiawnder ieuenctid, sy'n ceisio atal troseddu ac aildroseddu gan blant a phobl ifanc. Mae'r BCI yn gosod dangosyddion perfformiad ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (AHCh). |
| **Cynllun Addysg Sengl** | Mae'r Cynlluniau Addysg Sengl yn dweud sut bydd yr awdurdod lleol yn darparu addysg ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r sector ysgol a sut gallant wella'r broses o fonitro'r ddarpariaeth hon. |
| **EOTAS** | Addysg ar wahân i yn yr ysgol |
| **KIT** | Prosiectau Cadw mewn Cysylltiad. Nod y prosiectau hyn yw cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol ac nad ydynt yn bwriadu dilyn llwybrau dysgu traddodiadol. Mae'r prosiectau hyn yn eu cefnogi i aros mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. |
| **NEET** | Pobl Ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |

| | |
|---|---|
| **System Cyfiawnder Ieuenctid** | Mae'r System Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys tair rhan:<br><br>• **Timau Troseddau Ieuenctid** (TTIau) sy'n cynnwys heddweision, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau cymdeithasol a phobl o sefydliadau eraill. Eu gwaith yw delio â throseddwyr ifanc yn y gymuned, a helpu eu hatal rhag cyflawni troseddau.<br><br>• Mae **Llysoedd Ieuenctid** yn delio â'r holl bobl ifanc sydd wedi cael eu cyhuddo o drosedd. Weithiau, mewn achosion difrifol iawn, gallai llys ieuenctid benderfynu anfon person ifanc i gael prawf gan Lys y Goron, yr un math o lys sy'n delio â throseddau difrifol sy'n cael eu cyflawni gan oedolion.<br><br>• **Gwarchodaeth**. Mewn rhai sefyllfaoedd, gall llys roi dedfryd warchodol i berson ifanc. Mae hyn yn golygu eu bod yn colli eu rhyddid ac yn cael eu cadw mewn llety diogel. |
| **Ymestyn Hawliau** | Ymestyn Hawliau yw polisi arweiniol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid yng Nghymru. Mae'n cynnwys yr holl wasanaethau, cymorth a chyfleoedd ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, lle bynnag maent yn digwydd, pwy bynnag sy'n eu cyflwyno a ble bynnag mae'r cyllid yn dechrau. Mae deg hawl o dan y penawdau canlynol: Eich hawliau, Lleisio barn, Teimlo'n dda, Addysg a chyflogaeth, Cymryd rhan/cael eich cynnwys, Bod yn unigolyn, Mynediad hawdd, Iechyd a lles, Mynediad i wybodaeth ac arweiniad, Diogelwch a diogeledd |
| **YOI** | Sefydliad Troseddwyr Ifanc. Lle mae pobl ifanc rhwng 15 a 21 oed, sydd wedi torri'r gyfraith, yn bwrw eu tymor ar ôl dedfryd llys. |
| **Ystâd Ddiogel** | Cyfleusterau sy'n cael eu rhedeg gan Wasanaeth Carchardai EM, gan gynnwys carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc |